Budd-daliadau profedigaeth

Os yw eich gŵr, gwraig neu bartner sifil wedi marw

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau



Y canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn yn dweud wrthych am fudd-daliadau'r wladwriaeth y gallech eu cael os bydd eich gŵr, gwraig neu bartner sifil yn marw.

Mae'n rhoi gwybod i chi am y gwahanol fathau o fudd-dal profedigaeth a sut y gallwch wneud cais amdanynt. Mae hefyd yn rhoi gwybod i chi sut i wneud cais a sut y bydd unrhyw fudd-dal profedigaeth y gallech ei gael yn effeithio ar fudd-daliadau eraill rydych yn eu cael.

Mae'r math o fudd-dal profedigaeth a gallwch ei gael yn dibynnu ar pryd y bu farw eich gŵr, gwraig neu bartner sifil. Gan fod y rheolau am fudd-daliadau profedigaeth wedi newid yn y gorffennol, mae'r daflen hon wedi'i rhannu'n bum adran.

- Cyflwyniad
- Y rheolau presennol – ar gyfer dynion neu ferched gweddw ar neu ar ôl 9 Ebrill 2001, neu ar gyfer pobl y mae eu partner sifil wedi marw ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005
- Merched gweddw rhwng 11 Ebrill 1988 ac 8 Ebrill 2001
- Merched gweddw cyn 11 Ebrill 1988
- Gwybodaeth gyffredinol

Mae'r daflen hon yn rhoi gwybod i chi sut y gall cyfraniadau Yswiriant Gwladol a dalwyd i'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil yn y gorffennol effeithio ar y taliad a gewch, a ble y gallwch gael rhagor o gyngor a chefnogaeth.

Os ydych yn weddw rhyfel mae rheolau gwahanol yn gymwys. Gallwch gael taflenni a gwybodaeth am y rheolau hyn gan yr Asiantaeth Personel y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr. Gweler tudalen 31 i gael manylion am sut i gysylltu â hwy.

I gael esboniad o'r termau technegol a ddefnyddir gennym drwy'r canllaw hwn, edrychwch yn yr eirfa ar dudalen 36.

Cynnwys

Y canllaw hwn 2

Cyflwyniad 6

Os ydych yn ddyn neu'n wraig a wnaed yn weddw ar neu ar ôl 9 Ebrill 2001, neu a ddaeth yn bartner sifil sy'n goroesi ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005 7

Taliad Profedigaeth 7

Lwfans Rhiant Gweddw 8

Lwfans Profedigaeth 11

Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth? 12

Sut i wneud cais am fudd-daliadau profedigaeth 13

Os ydych yn wraig a wnaed yn weddw ar neu ar ôl 11 Ebrill 1988 a hyd at ac yn cynnwys 8 Ebrill 2001 15

Lwfans Mam Weddw 15

Pensiwn Gwraig Weddw 16

Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth? 17

Os ydych yn wraig a wnaed yn weddw cyn 11 Ebrill 1988 19

Lwfans Mam Weddw 19

Pensiwn Gwraig Weddw 20

Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth? 21

Gwybodaeth gyffredinol.....23

Sut a phryd y byddwn yn talu budd-daliadau profedigaeth 23

Os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir.....24

Beth fydd yn digwydd i'm taliadau os byddaf i neu fy mhlant yn mynd dramor? 24

Os bydd eich amgylchiadau'n newid 24

Cymryd arian o'ch taliadau budd-dal profedigaeth 26

Cwestiynau eraill a allai fod gennych.....27

I gael rhagor o wybodaeth.....31

Cyflwyniad

Mae'r math o fudd-dal profedigaeth y gallwch ei gael yn dibynnu ar pryd y bu farw eich gŵr, gwraig neu bartner sifil.

Cyflwynwyd y Cynllun Budd-dal Profedigaeth ar 9 Ebrill 2001 ac mae'n berthnasol i bobl a wnaed yn weddw ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw. Disodlodd y cynllun hwn y Cynllun Budd-dal Gwraig Gweddw, sy'n berthnasol i ferched a wnaed yn weddw cyn y dyddiad hwnnw. Mae gan y ddau gynllun rheolau ac amodau gwahanol. Yn wahanol i'r Cynllun Budd-dal Gwraig Gweddw, mae budd-daliadau profedigaeth ar gael i ddynion a merched fel ei gilydd.

Mae'r Cynllun Budd-dal Profedigaeth yn gymwys i bobl y bu farw eu partneriaid sifil ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005 hefyd.

Os ydych yn ferch sydd eisoes yn cael budd-dal o dan y Cynllun Budd-dal Gwraig Weddw, byddwch yn gallu parhau i gael y taliadau hyn gyhyd â'ch bod yn bodloni'r amodau cymhwyso.

Pobl sy'n byw yn yr Alban neu a fu'n byw yn yr Alban

Cydnabu cyfraith yr Alban y dylai cyplau sy'n cydfyw fod â'r un hawliau â chwpl priod. Fodd bynnag, nid yw hyn yn berthnasol i bobl a ddechreuodd gydfyw ar ôl 4 Mai 2006, ac ni fydd cyplau sy'n dechrau cydfyw ar ôl y dyddiad hwn yn gallu cael budd-daliadau profedigaeth.

Os ydych yn ddyn neu'n wraig a wnaed yn weddw ar neu ar ôl 9 Ebrill 2001, neu a ddaeth yn bartner sifil wedi goroesi ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005

Efallai y gallech gael Taliad Profedigaeth a naill ai:

- Lwfans Rhiant Gweddw, neu
- Lwfans Profedigaeth.

I fod yn gymwys i gael y budd-daliadau profedigaeth hyn, rhaid bod eich gŵr, eich gwraig neu'ch partner sifil wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Nid yw'r cyfraniadau a dalwyd gennych yn cyfrif am y budd-daliadau hyn.

Efallai y gallech gael y budd-daliadau hyn ar y gyfradd lawn os bu farw eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil oherwydd damwain yn y gwaith neu o afiechyd diwydiannol penodol (afiechyd y cawsant ddiagnosis ar ei gyfer ac y cawsant driniaeth ar ei gyfer), hyd yn oed os nad oeddent wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol llawn.

Taliad Profedigaeth

Mae Taliad Profedigaeth yn gyfandaliad di-dreth o £2000 i'ch helpu pan fydd eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil yn marw.

Gallwch gael Taliad Profedigaeth os yw eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil wedi gwneud digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol, neu os achoswyd ei farwolaeth/marwolaeth gan ei swydd, ac:

- roeddech o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth eich hun pan fuont farw, neu
- nid oedd ganddynt hawl i Bensiwn y Wladwriaeth Dosbarth A pan fuont farw.

Ni allwch gael Taliad Profedigaeth os, pan fu farw eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil:

- roeddech wedi ysgaru neu roedd eich partneriaeth sifil wedi'i diddymu'n gyfreithiol
- roeddech yn cydfyw â rhywun arall fel pe baech yn briod neu mewn partneriaeth sifil gyda hwy, neu
- tra roeddech yn y carchar neu yn y ddalfa.

Mae Pensiwn y Wladwriaeth Dosbarth A yn cynnwys Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth a Phensiwn Ychwanegol y Wladwriaeth. Efallai y cewch un o'r ddwy ran neu'r ddwy.

Lwfans Rhiant Gweddw

Mae Lwfans Rhiant Gweddw yn daliad rheolaidd y gallwch ei gael os:

- gwnaeth eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil dalu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol, ac
- oes gennych o leiaf un plentyn rydych yn cael Budd-dal Plant ar ei gyfer, ac rydych o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth, neu
- rydych yn disgwyl plentyn eich diweddar ŵr neu bartner sifil (gan gynnwys o ganlyniad i driniaeth IVF) ac roeddech yn byw gyda hwy yn union cyn iddynt farw.

Os nad yw'r plentyn yn byw gyda chi, ond rydych yn talu rhywfaint o gostau darparu ar gyfer y plentyn hwnnw, gallech gael Lwfans Rhiant Gweddw.

Mae rheolau arbennig pan fyddwch chi a'ch plentyn yn byw dramor neu os ydych wedi dychwelyd i Brydain Fawr yn ddiweddar. Gweler tudalen 24 i gael rhagor o wybodaeth am hyn.

Daw Lwfans Rhiant Gweddw i ben pan nad oes gennych blentyn dibynnol mwyach. Os yw hyn o fewn 52 wythnos i golli eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil, efallai y bydd gennych hawl i Lwfans Profedigaeth. Gweler tudalen 11.

Rhaid i chi dalu treth ar Lwfans Rhiant Gweddw ac mae'n cynnwys lwfans sylfaenol a ‘phensiwn ychwanegol’ os ydych yn gymwys i'w gael. Gall hefyd gynnwys lwfans (a elwir yn ‘ychwanegiad ar gyfer plentyn’) ar gyfer pob un o'ch plant.

‘Ychwanegiad ar gyfer plentyn’

Cyn 6 Ebrill 2003, efallai y byddech wedi cael ‘ychwanegiad ar gyfer plentyn’ gyda Lwfans Rhiant Gweddw. Ers y dyddiad hwnnw, nid yw'r ychwanegiad ar gyfer plentyn yn gymwys gan y caiff ei gwmpasu bellach gan Gredyd Treth Plant.

Fodd bynnag, os ydych eisoes yn cael Lwfans Rhiant Gweddw, byddwch yn parhau i gael yr ychwanegiad ar gyfer plentyn oni bai:

- eich bod yn rhoi'r gorau i gael Lwfans Rhiant Gweddw
- eich bod yn rhoi'r gorau i gael Budd-dal Plant
- nad ydych yn bodloni'r amodau ar gyfer cael yr ychwanegiad ar gyfer plentyn am 8 wythnos neu fwy, neu
- eich bod yn colli'r hawl i'r arian ar gyfer eich plentyn neu blant yn gyfan gwbl.

Efallai y gallech wneud cais am Gredyd Treth Plant. Am ragor o wybodaeth am sut i wneud cais, gweler tudalen 31.

'Y pensiwn ychwanegol'

Ers 2002, mae'r pensiwn ychwanegol wedi cael ei alw'n Ail Bensiwn y Wladwriaeth, ond arferai gael ei adnabod fel pensiwn Cynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar sail Enillion (SERPS). Efallai y gallwch etifeddu rhan o bensiwn ychwanegol eich diweddar gŵr, gwraig neu bartner sifil a chael hwn wedi'i dalu gan eich Lwfans Rhiant Gweddw.

Os byddwch yn peidio â chael Lwfans Rhiant Gweddw, daw eich pensiwn ychwanegol i ben hefyd. Caiff ei dalu eto pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ar yr amod:

- nad ydych wedi ailbriodi neu ffurfio partneriaeth sifil newydd, ac
- eich bod yn 45 oed neu'n hŷn pan ddaethoch yn gymwys i gael Lwfans Rhiant Gweddw.

Os daeth eich Lwfans Rhiant Gweddw i ben cyn eich bod yn 55 oed, byddwch yn etifeddu llai o bensiwn ychwanegol pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Ar hyn o bryd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yw 60 i ferched a 65 i ddynion. Fodd bynnag, mae hyn yn newid yn raddol, felly erbyn 2020, yr oedran cynharaf y bydd dynion a merched yn gallu cael eu Pensiwn y Wladwriaeth fydd 65.

Lwfans Profedigaeth

Mae Lwfans Profedigaeth yn daliad rheolaidd y gallwch ei gael os:

- gwnaeth eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil dalu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol, neu
- achoswyd y farwolaeth gan ei swydd, ac
- roeddech yn 45 neu'n hŷn, ond o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth eich hun pan fu farw.

Ni allwch gael Lwfans Profedigaeth os, pan fu farw eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil:

- roeddech wedi ysgaru neu roedd eich partneriaeth sifil wedi'i diddymu'n gyfreithiol
- roeddech yn cydfyw â rhywun arall fel pe baech yn briod neu mewn partneriaeth sifil â hwy, neu
- tra roeddech yn y carchar neu yn y ddalfa.

Faint y gallaf ei gael?

Os ydych yn 55 oed neu'n hŷn ar adeg marwolaeth eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil, byddwch yn cael cyfradd lawn Lwfans Profedigaeth. Os ydych rhwng 45 ac 54, byddwch yn cael llai na'r gyfradd lawn. Mae'r gyfradd hon yn sefydlog ac ni fydd yn cynyddu ar eich pen-blwydd bob blwyddyn.

Gellir talu Lwfans Profedigaeth am hyd at 52 wythnos o'r dyddiad y bu farw eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil. Daw i ben os byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn diwedd y cyfnod o 52 wythnos.

I gael rhagor o wybodaeth am Bensiwn y Wladwriaeth, cysylltwch â'r Gwasanaeth Pensiwn.

Ffôn: 0845 60 60 275

Ffôn testun: 0845 60 60 295

Gwefan: www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk

Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth?

Ni allwch barhau i gael Lwfans Rhiant Gweddw neu Lwfans Profedigaeth unwaith y byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. I gael rhagor o wybodaeth am Bensiwn y Wladwriaeth, cysylltwch â'r Gwasanaeth Pensiwn.

Am wybodaeth am gostau galwadau, ewch i dudalen 41.

Sut i wneud cais am fudd-daliadau profedigaeth

Ni fyddwch yn gwneud cais am bob budd-dal ar wahân.

Pan fyddwch yn cofrestru marwolaeth eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil, rhoddir tystysgrif marwolaeth i chi. Dylech lenwi'r ffurflen BD8 a gewch ar yr un pryd, a'i dangos i'r Ganolfan Byd Gwaith.

Byddwn wedyn yn anfon ffurflen gais atoch. Dylech ei chwblhau a'i dychwelyd cyn gynted â phosibl.

Os ydych yn cael problemau wrth gael gafael ar dystysgrif marwolaeth, cysylltwch â ni ar unwaith. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch neu os oes angen help i gwblhau'r ffurflen, byddwn yn gallu'ch helpu.

Mae'n rhaid i chi wneud cais am fudd-daliadau profedigaeth o fewn 3 mis i farwolaeth eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil. Fodd bynnag, gallwch wneud cais am Daliad Profedigaeth am hyd at 12 mis ar ôl marwolaeth eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil.

Mae'r tabl isod yn dangos y gwahanol fathau o fudd-daliadau a allai fod yn gymwys i chi, yn dibynnu ar eich oedran a'ch amgylchiadau pan fu farw eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil.

Eich oedran a'ch amgylchiadau pan fu farw eich partner	**Yr hyn y gallech ei gael**
Dan 45 heb blant dibynnol	Taliad Profedigaeth yn unig
Dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth gyda phlant dibynnol	Taliad Profedigaeth a Lwfans Rhiant Gweddw
Dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth heb blant dibynnol, ond rydych yn disgwyl baban eich gŵr neu'ch partner sifil	Taliad Profedigaeth a Lwfans Rhiant Gweddw
45 neu'n hŷn, ond o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth	Taliad Profedigaeth a Lwfans Profediageth
Dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth ac nad oedd gan eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil hawl i Bensiwn y Wladwriaeth Categori A pan fuont farw	Taliad Profedigaeth a Phensiwn y Wladwriaeth
Dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth ac nad oedd eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil yn cael Pensiwn y Wladwriaeth pan fuont farw	Pensiwn y Wladwriaeth

Os ydych yn wraig a wnaed yn weddw ar neu ar ôl 11 Ebrill 1988 a hyd at ac yn cynnwys 8 Ebrill 2001

Roedd Taliad Gwraig Weddw yn £1000, a dalwyd pan fu farw eich gŵr.

Efallai y gallech fod wedi cael Taliad Gwraig Weddw pan fu farw eich gŵr a naill ai:

- Lwfans Mam Weddw, neu
- Bensiwn Gwraig Weddw.

I fod yn gymwys i gael y budd-daliadau hyn, rhaid bod eich diweddar ŵr wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Nid yw'r cyfraniadau a dalwyd gennych yn cyfrif am y budd-daliadau hyn.

Bydd un hawliad yn cwmpasu pob un o'r 3 budd-dal - Taliad Gwraig Weddw, Lwfans Mam Weddw a Phensiwn Gwraig Weddw.

Os daw eich hawl i Lwfans Mam Weddw i ben, cewch eich asesu'n awtomatig ar gyfer Pensiwn Gwraig Weddw.

Lwfans Mam Weddw

Mae Lwfans Mam Weddw yn daliad rheolaidd rydych yn ei gael oherwydd:

- gwnaeth eich diweddar ŵr dalu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol, ac
- mae gennych blentyn rydych yn gyfrifol amdano.

Os nad yw'r plentyn yn byw gyda chi, ond rydych yn talu rhywfaint o gostau darparu ar gyfer y plentyn hwnnw, gallech gael Lwfans Mam Weddw o hyd.

Mae rheolau arbennig pan fyddwch chi a'ch plentyn yn byw dramor neu os ydych wedi dychwelyd i Brydain Fawr yn ddiweddar. Gweler tudalen 24 am ragor o wybodaeth.

Os byddwch yn peidio â chael Lwfans Mam Weddw am nad oes gennych blentyn dibynnol mwyach ac rydych o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth, efallai y gallech gael Pensiwn Gwraig Weddw.

Faint y gallaf ei gael?

Byddwch yn cael lwfans i chi'ch hun, ac efallai y gallech gael 'ychwanegiad ar gyfer plentyn' ar gyfer pob plentyn rydych yn cael Budd-dal Plant ar eu cyfer.

Byddwch yn parhau i gael ychwanegiad ar gyfer plentyn oni bai:

- eich bod yn rhoi'r gorau i gael Lwfans Rhiant Gweddw
- eich bod yn rhoi'r gorau i gael Budd-dal Plant
- nad ydych yn bodloni'r amodau ar gyfer cael y taliad am 8 wythnos neu fwy, neu
- eich bod yn colli'r hawl i arian ar gyfer eich plentyn neu blant yn gyfan gwbl.

Pensiwn Gwraig Weddw

Mae Pensiwn Gwraig Weddw yn daliad rheolaidd y gallech ei gael os nad oes gennych hawl i Lwfans Mam Weddw mwyach.

Ni allwch gael Pensiwn Gwraig Weddw a Lwfans Mam Weddw ar yr un pryd.

Faint y gallaf ei gael?

Byddwch yn cael y gyfradd lawn o Bensiwn Gwraig Weddw os:

- roeddech yn 55 neu'n hŷn pan ddaethoch yn weddw, neu
- rydych yn 55 oed neu'n hŷn pan ddaw eich Lwfans Mam Weddw i ben.

Os ydych rhwng 45 ac 54, byddwch yn cael llai na'r gyfradd lawn. Mae'r gyfradd hon yn sefydlog ac ni fydd yn cynyddu ar eich pen-blwydd bob blwyddyn.

Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth?

Os byddwch yn cael Lwfans Mam Weddw neu Bensiwn Gwraig Weddw o hyd pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, bydd angen i chi drafod eich opsiynau gyda'r Gwasanaeth Pensiwn.

Mae'r tabl ar dudalen 18 yn dangos y gwahanol fathau o fudd-daliadau a allai fod yn gymwys i chi, yn dibynnu ar eich oedran a'ch amgylchiadau pan fu farw eich gŵr.

I gael rhagor o wybodaeth am Bensiwn y Wladwriaeth, cysylltwch â'r Gwasanaeth Pensiwn.

Ffôn: 0845 60 60 275

Ffôn testun: 0845 60 60 295

Gwefan: www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk

Am wybodaeth am gostau galwadau, ewch i dudalen 41.

Eich oedran a'ch amgylchiadau pan fu farw eich gŵr	Yr hyn y gallech ei gael
Dan 45 heb blant dibynnol	Taliad Gwraig Weddw yn unig
45 neu'n hŷn, ond o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth heb blentyn dibynnol	Taliad Gwraig Weddw a Phensiwn Gwraig Weddw
Dan 45 heb blentyn dibynnol, ond rydych yn disgwyl baban eich gŵr	Taliad Gwraig Weddw a Lwfans Mam Weddw
Dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth gyda phlentyn dibynnol	Taliad Gwraig Weddw a Lwfans Mam Weddw
Dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth ond o dan 65 ac nad oedd eich gŵr yn cael Pensiwn y Wladwriaeth Categori A pan fu farw	Taliad Gwraig Weddw a Phensiwn Gwraig Weddw neu Bensiwn y Wladwriaeth (neu Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth). Fel arfer, byddwch yn cael Pensiwn y Wladwriaeth.
Roedd eich gŵr yn cael Pensiwn y Wladwriaeth Categori A cyn iddo farw	Taliad Gwraig Weddw neu Bensiwn Gwraig Weddw (neu Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth). Fel arfer, byddwch yn cael Pensiwn y Wladwriaeth os ydych dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth.
Dros 65 ac nad oedd eich gŵr yn cael Pensiwn y Wladwriaeth Categori A	Pensiwn y Wladwriaeth (neu Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth)
Dros 65 ac roedd eich gŵr yn cael Pensiwn y Wladwriaeth Categori A	Taliad Gwraig Weddw neu Bensiwn y Wladwriaeth (neu Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth)
Dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth gyda phlentyn dibynnol	Taliad Gwraig Weddw (ar yr amod nad oedd eich gŵr yn cael Pensiwn y Wladwriaeth Categori A) a Phensiwn y Wladwriaeth neu Lwfans Mam Weddw. Fel arfer, byddwch yn cael Pensiwn y Wladwriaeth.

Roedd Lwfans Gwraig Weddw yn daliad rheolaidd a dalwyd am 26 wythnos.

Os ydych yn wraig a wnaed yn weddw cyn 11 Ebrill 1988

Efallai y gallech fod wedi cael Lwfans Gwraig Weddw pan fu farw eich gŵr a naill ai:

- Lwfans Mam Weddw, neu
- Bensiwn Gwraig Weddw.

I fod yn gymwys ar gyfer y budd-daliadau hyn, rhaid bod eich gŵr wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyn iddo farw. Nid yw'r cyfraniadau a dalwyd gennych yn cyfrif am y budd-daliadau hyn.

Os bu farw eich gŵr o ganlyniad i ddamwain yn y gwaith neu afiechyd diwydiannol penodol cyn 11 Ebrill 1988, efallai y byddwch yn gallu cael Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol.

Byddai eich cais gwreiddiol am fudd-daliadau gwraig weddw wedi cwmpasu pob un o'r 3 budd-dal - Lwfans Gwraig Weddw, Lwfans Mam Weddw a Phensiwn Gwraig Weddw.

Os daw eich hawl i Lwfans Mam Weddw i ben, cewch eich asesu'n awtomatig ar gyfer Pensiwn Gwraig Weddw.

Lwfans Mam Weddw

Mae Lwfans Mam Weddw yn daliad rheolaidd a fydd wedi dechrau ar ôl i'ch Lwfans Gwraig Weddw ddod i ben.

Os byddwch yn peidio â chael Lwfans Mam Weddw gan nad oes gennych blentyn dibynnol mwyach ac rydych o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth, efallai y gallech gael Pensiwn Gwraig Weddw.

Pensiwn Gwraig Weddw

Mae Pensiwn Gwraig Weddw yn daliad rheolaidd sy'n dechrau ar ôl i'ch Lwfans Gwraig Weddw neu Lwfans Mam Weddw ddod i ben.

Byddwch yn cael Pensiwn Gwraig Weddw os talodd eich gŵr ddigon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyn iddo farw.

Faint y gallaf ei gael?

Byddwch yn cael y gyfradd lawn o Bensiwn Gwraig Weddw os:

- roeddech yn 50 neu'n hŷn pan fu farw eich gŵr, neu
- rydych yn 50 oed neu'n hŷn pan ddaw eich Lwfans Mam Weddw i ben.

Os ydych rhwng 40 ac 49, byddwch yn cael llai na'r gyfradd lawn o Bensiwn Gwraig Weddw. Mae'r gyfradd hon yn sefydlog ac ni fydd yn cynyddu ar eich pen-blwydd bob blwyddyn.

I gael rhagor o wybodaeth am Bensiwn y Wladwriaeth, cysylltwch â'r Gwasanaeth Pensiwn.

Ffôn: 0845 60 60 275

Ffôn testun: 0845 60 60 295

Gwefan: www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk

Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth?

Os ydych yn cael Lwfans Mam Weddw o hyd unwaith y byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, bydd angen i chi drafod eich opsiynau gyda'r Gwasanaeth Pensiwn.

Mae'r tabl isod yn dangos y gwahanol fathau o fudd-daliadau a allai fod yn gymwys i chi, yn dibynnu ar eich oedran a'ch amgylchiadau pan fu farw eich gŵr.

Eich oedran a'ch amgylchiadau pan fu farw eich gŵr	**Yr hyn y gallech ei gael**
Dan 40 heb blentyn dibynnol	Lwfans Gwraig Weddw
40 neu'n hŷn, ond o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth heb blentyn dibynnol	Lwfans Gwraig Weddw a Phensiwn Gwraig Weddw
Dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth gyda phlentyn dibynnol	Lwfans Gwraig Weddw a Lwfans Mam Weddw
Dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth ond o dan 65 ac roedd eich gŵr wedi ymddeol hefyd ac yn cael Pensiwn y Wladwriaeth cyn iddo farw	Pensiwn y Wladwriaeth (neu Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth)
Dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth ond o dan 65 ac wedi ymddeol, ond nad oedd eich gŵr wedi ymddeol cyn iddo farw	Lwfans Gwraig Weddw a Phensiwn Gwraig Weddw neu Bensiwn y Wladwriaeth (neu Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth). Fel arfer, byddwch yn cael Pensiwn y Wladwriaeth.

Am wybodaeth am gostau galwadau, ewch i dudalen 41.

Eich oedran a'ch amgylchiadau pan fu farw eich gŵr	Yr hyn y gallech ei gael
Dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth ond o dan 65 a heb ymddeol, ac nad oedd eich gŵr wedi ymddeol cyn iddo farw	Lwfans Gwraig Weddw a Phensiwn Gwraig Weddw neu Bensiwn y Wladwriaeth. Fel arfer, byddwch yn cael Pensiwn y Wladwriaeth.
Dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth ond o dan 65 a heb ymddeol, ac roedd eich gŵr wedi ymddeol ac yn cael Pensiwn y Wladwriaeth cyn iddo farw	Pensiwn Gwraig Weddw neu Bensiwn y Wladwriaeth. Fel arfer, byddwch yn cael Pensiwn y Wladwriaeth.
Dros 65 ac wedi ymddeol ac roedd eich gŵr wedi ymddeol hefyd ac yn cael Pensiwn y Wladwriaeth cyn iddo farw	Pensiwn y Wladwriaeth (neu Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth)
Dros 65 ac wedi ymddeol ac nad oedd eich gŵr wedi ymddeol cyn iddo farw	Lwfans Gwraig Weddw neu Bensiwn y Wladwriaeth (neu Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth)
Dros 65 a heb ymddeol ac nad oedd eich gŵr wedi ymddeol cyn iddo farw	Lwfans Gwraig Weddw a Phensiwn y Wladwriaeth
Dros 65 a heb ymddeol ac roedd eich gŵr wedi ymddeol ac yn cael Pensiwn y Wladwriaeth cyn iddo farw	Pensiwn y Wladwriaeth yn unig
Dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth gyda phlant dibynnol.	Lwfans Gwraig Weddw (ar yr amod nad oedd eich gŵr wedi ymddeol) a Phensiwn y Wladwriaeth neu Lwfans Mam Weddw. Fel arfer, byddwch yn cael Pensiwn y Wladwriaeth.

Gwybodaeth gyffredinol

Sut a phryd y byddwn yn talu budd-daliadau profedigaeth

Talu budd-dal yn uniongyrchol i mewn i gyfrif

Os daw eich budd-dal profedigaeth i fwy na £5 yr wythnos ac rydych yn byw yn y wlad hon, byddwn yn talu eich budd-dal yn uniongyrchol i mewn i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu.

Talu symiau bach

Os nad yw eich lwfans neu'ch pensiwn yn fwy na £5 yr wythnos, fel arfer byddwn yn ei dalu unwaith y flwyddyn, ar gyfer y flwyddyn a aeth heibio. Byddwn yn ei dalu'n uniongyrchol i mewn i gyfrif neu drwy siec, y gallwch ei thalu i mewn i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu.

Eich taliadau cyntaf

I ddechrau, tra byddwn yn cyfrifo'r union swm y mae gennych hawl iddo, efallai y cewch ychydig llai o Lwfans Rhiant Gweddw neu Lwfans Profediageth. Byddwn yn talu unrhyw wahaniaeth yn ddiweddarach.

Ffyrdd eraill o gael Taliad Profedigaeth

Rydym yn argymell eich bod hefyd yn cael eich Taliad Profedigaeth wedi'i dalu'n uniongyrchol i mewn i gyfrif. Os nad ydych am dalu eich budd-dal yn uniongyrchol i mewn i gyfrif, byddwn yn anfon siec atoch am y swm cyfan. Bydd rhaid i chi ei thalu i mewn i gyfrif.

Os credwch fod ein penderfyniad yn anghywir

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am benderfyniad rydym wedi'i wneud neu os ydych o'r farn bod penderfyniad yn anghywir, cysylltwch â ni a byddwn yn rhoi esboniad i chi. Dylech gysylltu â ni o fewn mis i ddyddiad y llythyr yn rhoi gwybod i chi am ein penderfyniad, neu efallai na fyddwn yn gallu ystyried y mater.

Beth fydd yn digwydd i'm taliadau os byddaf i neu fy mhlant yn mynd dramor?

Fel arfer gallwn dalu eich budd-daliadau profedigaeth unrhyw le dramor.

Os ydych yn cael yr ychwanegiad ar gyfer plentyn, gall y rheolau ynglŷn â thalu'r ychwanegiad i chi tra'ch bod dramor ddibynnu ar y wlad yr ewch iddi.

Mae'n rhaid eich bod yn rhoi digon o amser os ydych chi, neu blentyn rydych yn cael yr ychwanegiad ar ei gyfer, yn mynd dramor. Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni cyn gynted ag y byddwch chi a'ch plentyn yn dod nôl, neu gallech golli arian.

Os bydd eich amgylchiadau'n newid

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith os bydd unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau a allai effeithio ar eich taliadau. Er enghraifft, gall hyn fod oherwydd eich bod:

- yn mynd dramor
- yn symud tŷ

- yn dechrau cael budd-dal, lwfans neu bensiwn arall
- yn mynd i'r carchar neu y cewch eich cadw yn y ddalfa
- yn dechrau byw gyda rhywun fel pe baent yn ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi, neu
- yn priodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil newydd.

Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym hefyd am unrhyw newidiadau a allai effeithio ar eich plant. Gallent fod yn un o'r rhai a restrir uchod, neu os oes gennych blentyn arall neu mae un o'ch plant:

- yn gadael cartref
- yn marw
- yn rhoi'r gorau i astudio mewn addysg llawn amser (addysg ar ôl iddynt fod yn 16 oed neu'n hŷn), neu
- yn dechrau gweithio neu'n mynd ar gwrs hyfforddi a noddir gan gyflogwr.

Os ydych yn rhoi'r gorau i gael Budd-dal Plant

Os ydych yn rhoi'r gorau i gael Budd-dal Plant ac rydych yn cael Lwfans Rhiant Gweddw neu Lwfans Mam Weddw gydag ychwanegiad ar gyfer plentyn ar gyfer unrhyw un o'ch plant, byddwn yn lleihau eich budd-dal.

Cymryd arian o'ch taliadau budd-dal profedigaeth

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y byddwn yn cymryd rhywfaint o arian o'ch budd-daliadau profedigaeth cyn i chi ei gael. Efallai y gwnawn hynny os oes rhaid i chi ad-dalu budd-dal oherwydd:

- ein bod wedi talu gormod o arian i chi, neu
- ein bod wedi talu benthyciad i chi o'r Gronfa Gymdeithasol.

Cymryd arian yn ôl os ydym wedi gordalu

Os byddwn wedi talu gormod o fudd-dal profedigaeth neu fudd-dal gwraig weddw i chi a'n bod yn penderfynu ei hawlio yn ôl, bydd yn rhaid i chi ei ad-dalu i ni.

Gallwch apelio yn erbyn hyn os:

- nad ydych yn credu ein bod wedi eich gordalu
- rydych yn anghytuno â'r swm rydym yn dweud ein bod wedi'ch gordalu, neu
- nad ydych yn credu bod gennym hawl i hawlio'r arian hwnnw yn ôl.

Os ydym wedi talu gormod o fudd-dal arall i chi a bod yn rhaid i chi ei ad-dalu, gallwn gymryd y swm hwn o'ch budd-daliadau profedigaeth neu fudd-daliadau gwraig weddw mewn rhandaliadau wythnosol.

Cymryd benthyciadau o'r Gronfa Gymdeithasol yn ôl

Os ydych yn cael benthyciad o'r Gronfa Gymdeithasol (neu os nad ydych wedi ad-dalu'r arian rydych wedi'i gael eisoes yn ôl), gallwn ei gymryd o'ch budd-daliadau profedigaeth.

Cwestiynau eraill a allai fod gennych

A fydd fy mudd-daliadau profedigaeth yn cynyddu bob blwyddyn?

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i ni adolygu'r symiau sy'n ffurfio lwfansau a budd-daliadau unwaith y flwyddyn a'u cynyddu'n unol â'r gyfradd chwyddiant, pan fo angen. Bydd unrhyw gynnydd yn dechrau ym mis Ebrill.

Bonws Nadolig

Bonws di-dreth yw hwn rydym yn ei dalu gyda'ch Lwfans Mam Weddw, Lwfans Rhiant Gweddw a Phensiwn Gwraig Weddw ychydig cyn y Nadolig bob blwyddyn.

Fel arfer byddwn yn talu'r bonws yn awtomatig gyda'ch taliad budd-dal arferol.

Os bu'ch diweddar ŵr, gwraig neu bartner sifil yn byw dramor

Bydd unrhyw gyfraniadau Yswiriant Gwladol a dalwyd gan eich gŵr, gwraig neu'ch partner sifil yng Ngogledd Iwerddon neu Ynys Manaw yn cyfrif tuag at fudd-daliadau profedigaeth.

Os bu eich gŵr, gwraig neu bartner sifil yn byw neu'n talu Yswiriant Gwladol mewn gwledydd penodol eraill, gall y cyfraniadau a wnaed ganddynt yno helpu tuag at y cyfraniadau y gallai fod angen eu talu os byddent wedi byw yma. Gallai hyn olygu y gallwch wneud cais am fudd-daliadau profedigaeth.

Gallech hefyd fod â hawl i bensiwn o'r wlad arall (neu wledydd eraill) lle y bu eich gŵr, gwraig neu bartner sifil yn byw neu'n talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol ynddi cyn iddynt farw.

Damweiniau neu afiechydon diwydiannol

Os nad oedd eich gŵr, gwraig neu bartner sifil yn bodloni'r amodau ar gyfer talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol, neu os nad oedd yn eu bodloni'n llawn, efallai y gallech gael budd-daliadau profedigaeth o hyd os achoswyd ei farwolaeth/marwolaeth gan ddamwain neu afiechyd yn y gwaith.

A fydd yn rhaid i mi dalu treth incwm ar fy mudd-daliadau profedigaeth?

Nid oes rhaid i chi dalu treth ar:

- eich Taliad Profedigaeth
- unrhyw Fonws Nadolig a gewch, nac
- unrhyw ychwanegiad ar gyfer plentyn a gewch (gyda Lwfans Rhiant Gweddw neu Lwfans Mam Weddw).

Fodd bynnag, bydd yn rhaid i chi dalu treth ar:

- Lwfans Profedigaeth
- Lwfans Rhiant Gweddw neu Lwfans Mam Weddw, neu
- Bensiwn Gwraig Weddw.

Mae'n rhaid i chi gynnwys y budd-daliadau hyn ar eich ffurflen dreth. Hyd yn oed os nad oes gennych unrhyw incwm arall, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'ch swyddfa dreth cyn gynted ag y bydd gennych hawl i gael unrhyw un o'r budd-daliadau hyn.

Sut y bydd fy mudd-daliadau profedigaeth yn effeithio ar fudd-daliadau eraill a gaf?

Fel arfer, ni allwch gael mwy nag un prif fudd-dal y wladwriaeth ar yr un pryd. Fel arfer cyfyngir ar y taliad a gewch bob wythnos i'r budd-dal sy'n talu fwyaf (o'r prif fudd-daliadau rydych yn gymwys i'w cael).

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o sut y gall budd-daliadau profedigaeth effeithio ar fudd-daliadau eraill.

Budd-daliadau eraill	**Sut y mae budd-daliadau profedigaeth a budd-daliadau gwraig weddw yn effeithio ar fudd-daliadau eraill**
Lwfans Ceisio Gwaith Budd-dal Analluogrwydd Lwfans Mamolaeth Lwfans Gofalwr Lwfans Anabledd Difrifol Budd-dal Analluogrwydd (Ieuenctid)	Gallwn dalu'r budd-daliadau hyn yn ogystal â budd-daliadau profedigaeth a budd-daliadau gwraig weddw. Os byddwn yn eu talu, byddwn yn eu gostwng o'r swm Lwfans Rhiant Gweddw, Lwfans Profediageth, Lwfans Mam Weddw neu Bensiwn Gwraig Weddw rydym yn ei dalu i chi.
Cymhorthdal Incwm Budd-dal Tai Budd-dal Treth Cyngor Credyd Treth Plant Credyd Treth Gwaith Credyd Pensiwn	Rydym yn ystyried Lwfans Rhiant Gweddw, Lwfans Profediageth, Lwfans Mam Weddw neu Bensiwn Gwraig Weddw wrth asesu'r swm o fudd-dal y mae gennych hawl i'w gael.

Budd-daliadau eraill	Sut y mae budd-daliadau profedigaeth a budd-daliadau gwraig weddw yn effeithio ar fudd-daliadau eraill
Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth	Ni allwn dalu Pensiwn y Wladwriaeth yn ogystal â Phensiwn Gwraig Weddw neu Lwfans Mam Weddw. Gallwch barhau i gael Pensiwn Gwraig Weddw hyd nes y byddwch yn cyrraedd 65 oed neu Lwfans Mam Weddw am gyn hired ag y byddwch yn bodloni'r amodau arferol, ond ni fyddwch yn cael unrhyw Fudd-dal Pensiwn Ymddeol Graddedig nes y byddwch yn gwneud cais am Bensiwn y Wladwriaeth. Mewn rhai achosion gallwn dalu Taliad Profedigaeth yn ogystal â Phensiwn y Wladwriaeth. Ni allwn dalu Lwfans Rhiant Gweddw a Lwfans Profediageth unwaith y byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.
Lwfans Gweini Budd-dal Plant Lwfans Byw i'r Anabl Tâl Salwch Statudol Tâl Mamolaeth Statudol Pensiwn Anabledd Rhyfel Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol	Nid yw'r budd-daliadau hyn yn effeithio ar eich budd-daliadau profedigaeth a budd-daliadau gwraig weddw.
Budd-dal Plant (Rhieni Unigol)	Fel arfer ni allwn dalu hwn os byddwch yn cael ychwanegiad ar gyfer plentyn gyda Lwfans Rhiant Gweddw a Lwfans Mam Weddw. Yn hytrach, byddwn yn talu eich Budd-dal Plant ar y gyfradd arferol ar gyfer y plentyn hynaf.

I gael rhagor o wybodaeth

Y Ganolfan Byd Gwaith

Gallwch gysylltu â ni drwy fynd i www.canolfanbydgwaith.gov.uk, neu gallwch ddod o hyd i'n cyfeiriad a'n rhifau ffôn yn eich llyfr ffôn lleol.

Asiantaeth Personél y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr

Mae'r Asiantaeth Personél y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr yn rhoi gwybodaeth a chymorth i gyn-filwyr a fu yn y lluoedd arfog a'u teuluoedd.

Gwefan: www.veteransagency-uk.info

Ffôn: 0800 169 22 77

Ffôn testun: 0800 169 3458

Mae'r llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Iau o 8.15am i 5.15pm, a dydd Gwener o 8.15am i 4.30pm.

Credydau Treth

I gael gwybod mwy am Grdedyd Treth Plant neu Gredyd Treth Gwaith, gallwch:

- ffonio Cyllid a Thollau EM ar 0845 302 1489 (ffôn tetsun: 0845 300 3909), neu
- ewch ar-lein i www.hmrc.gov.uk/taxcredits

Am wybodaeth am gostau galwadau, ewch i dudalen 41.

Newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth

Bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 1950 yn codi'n raddol o 60 oed i 65 rhwng mis Ebrill 2010 a mis Ebrill 2020. Dangosir y newidiadau hyn yn y tablau canlynol.

Bydd gan ferched a anwyd ar neu ar ôl 5 Ebrill 1955 ond cyn 6 Ebrill 1959 oedran Pensiwn y Wladwriaeth o 65. Bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ddynion a merched a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 1959 yn cael ei gynyddu'n raddol o 65 i 68.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y newidiadau hyn drwy fynd i www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk a dilyn y dolenni i gyfrifiannell oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Neu, gallwch gysylltu â'r Gwasanaeth Pensiwn.

Ffôn: 0845 60 60 275

Ffôn testun: 0845 60 60 295

Am wybodaeth am gostau galwadau, ewch i dudalen 41.

Eich dyddiad oedran Pensiwn y Wladwriaeth os ydych yn ferch neu os cawsoch eich geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1950 ond cyn 6 Ebrill 1959, yn seiliedig ar eich dyddiad geni.

Dyddiad geni	Dyddiad y byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth
6 Ebrill 1950 i 5 Mai 1950	6 Mai 2010
6 Mai 1950 i 5 Mehefin 1950	6 Gorffennaf 2010
6 Mehefin 1950 i 5 Gorffennaf 1950	6 Medi 2010
6 Gorffennaf 1950 i 5 Awst 1950	6 Tachwedd 2010
6 Awst 1950 i 5 Medi 1950	6 Ionawr 2011
6 Medi 1950 i 5 Hydref 1950	6 Mawrth 2011
6 Hydref 1950 i 5 Tachwedd 1950	6 Mai 2011
6 Tachwedd 1950 i 5 Rhagfyr 1950	6 Gorffennaf 2011
6 Rhagfyr 1950 i 5 Ionawr 1951	6 Medi 2011
6 Ionawr 1951 i 5 Chwefror 1951	6 Tachwedd 2011
6 Chwefror 1951 i 5 Mawrth 1951	6 Ionawr 2012
6 Mawrth 1951 i 5 Ebrill 1951	6 Mawrth 2012
6 Ebrill 1951 i 5 Mai 1951	6 Mai 2012
6 Mai 1951 i 5 Mehefin 1951	6 Gorffennaf 2012
6 Mehefin 1951 i 5 Gorffennaf 1951	6 Medi 2012
6 Gorffennaf 1951 i 5 Awst 1951	6 Tachwedd 2012
6 Awst 1951 i 5 Medi 1951	6 Ionawr 2013
6 Medi 1951 i 5 Hydref 1951	6 Mawrth 2013
6 Hydref 1951 i 5 Tachwedd 1951	6 Mai 2013
6 Tachwedd 1951 i 5 Rhagfyr 1951	6 Gorffennaf 2013
6 Rhagfyr 1951 i 5 Ionawr 1952	6 Medi 2013

Eich dyddiad oedran Pensiwn y Wladwriaeth os ydych yn ferch neu os cawsoch eich geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1950 ond cyn 6 Ebrill 1959, yn seiliedig ar eich dyddiad geni.

Dyddiad geni	Dyddiad y byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth
6 Ionawr 1952 i 5 Chwefror 1952	6 Tachwedd 2013
6 Chwefror 1952 i 5 Mawrth 1952	6 Ionawr 2014
6 Mawrth 1952 i 5 Ebrill 1952	6 Mawrth 2014
6 Ebrill 1952 i 5 Mai 1952	6 Mai 2014
6 Mai 1952 i 5 Mehefin 1952	6 Gorffennaf 2014
6 Mehefin 1952 i 5 Gorffennaf 1952	6 Medi 2014
6 Gorffennaf 1952 i 5 Awst 1952	6 Tachwedd 2014
6 Awst 1952 i 5 Medi 1952	6 Ionawr 2015
6 Medi 1952 i 5 Hydref 1952	6 Mawrth 2015
6 Hydref 1952 i 5 Tachwedd 1952	6 Mai 2015
6 Tachwedd 1952 i 5 Rhagfyr 1952	6 Gorffennaf 2015
6 Rhagfyr 1952 i 5 Ionawr 1953	6 Medi 2015
6 Ionawr 1953 i 5 Chwefror 1953	6 Tachwedd 2015
6 Chwefror 1953 i 5 Mawrth 1953	6 Ionawr 2016
6 Mawrth 1953 i 5 Ebrill 1953	6 Mawrth 2016
6 Ebrill 1953 i 5 Mai 1953	6 Mai 2016
6 Mai 1953 i 5 Mehefin 1953	6 Gorffennaf 2016
6 Mehefin 1953 i 5 Gorffennaf 1953	6 Medi 2016
6 Gorffennaf 1953 i 5 Awst 1953	6 Tachwedd 2016
6 Awst 1953 i 5 Medi 1953	6 Ionawr 2017

Eich dyddiad oedran Pensiwn y Wladwriaeth os ydych yn ferch neu os cawsoch eich geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1950 ond cyn 6 Ebrill 1959, yn seiliedig ar eich dyddiad geni.

Dyddiad geni	Dyddiad y byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth
6 Medi 1953 i 5 Hydref 1953	6 Mawrth 2017
6 Hydref 1953 i 5 Tachwedd 1953	6 Mai 2017
6 Tachwedd 1953 i 5 Rhagfyr 1953	6 Gorffennaf 2017
6 Rhagfyr 1953 i 5 Ionawr 1954	6 Medi 2017
6 Ionawr 1954 i 5 Chwefror 1954	6 Tachwedd 2017
6 Chwefror 1954 i 5 Mawrth 1954	6 Ionawr 2018
6 Mawrth 1954 i 5 Ebrill 1954	6 Mawrth 2018
6 Ebrill 1954 i 5 Mai 1954	6 Mai 2018
6 Mai 1954 i 5 Mehefin 1954	6 Gorffennaf 2018
6 Mehefin 1954 i 5 Gorffennaf 1954	6 Medi 2018
6 Gorffennaf 1954 i 5 Awst 1954	6 Tachwedd 2018
6 Awst 1954 i 5 Medi 1954	6 Ionawr 2019
6 Medi 1954 i 5 Hydref 1954	6 Mawrth 2019
6 Hydref 1954 i 5 Tachwedd 1954	6 Mai 2019
6 Tachwedd 1954 i 5 Rhagfyr 1954	6 Gorffennaf 2019
6 Rhagfyr 1954 i 5 Ionawr 1955	6 Medi 2019
6 Ionawr 1955 i 5 Chwefror 1955	6 Tachwedd 2019
6 Chwefror 1955 i 5 Mawrth 1955	6 Ionawr 2020
6 Mawrth 1955 i 5 Ebrill 1955	6 Mawrth 2020
6 Ebrill 1955 i 5 Ebrill 1959	Eich pen-bleydd yn 65 oed

I gael rhagor o wybodaeth am Bensiwn y Wladwriaeth, cysylltwch â'r Gwasanaeth Pensiwn.

Ffôn: 0845 60 60 275

Ffôn testun: 0845 60 60 295

Gwefan: www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk

Geirfa

Ystyr y termau a ddefnyddiwyd yn y canllaw hwn.

Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth

Rhan o Bensiwn y Wladwriaeth yw hon sy'n seiliedig ar eich enillion rhwng cyfyngiadau penodol yn ystod bob blwyddyn dreth yn ystod eich bywyd gwaith ers 1978.

Hyd 2002, fe'i gelwid yn Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar Sail Enillion neu SERPS. Ers 2002, fe'i gelwir yn Ail Bensiwn y Wladwriaeth.

Ers 2002, rydym yn trin gofalwyr a phobl ag anableddau fel bod ganddynt enillion at ddibenion Ail Bensiwn y Wladwriaeth, fel y gallant gronni Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth.

Fel arfer, ni fydd pobl sy'n cyfrannu at bensiwn galwedigaethol neu bensiwn personol yn cronni Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth. Rydym yn talu Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth gyda thaliadau profedigaeth yn ogystal â Phensiwn y Wladwriaeth.

Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth

Dyma'r rhan o'ch Pensiwn y Wladwriaeth sy'n seiliedig ar y cyfraniadau Yswiriant Gwladol rydych wedi eu talu, y cewch eich trin fel pe baech wedi eu talu neu y cawsoch eu credydu â hwy, yn ystod eich bywyd gwaith.

Am wybodaeth am gostau galwadau, ewch i dudalen 41.

Pensiwn y Wladwriaeth Categori A

Mae Pensiwn y Wladwriaeth Categori A yn seliedig ar eich cofnod cyfraniadau. Mae'n cynnwys y 2 ran ganlynol, y gallech gael y naill ran neu'r llall neu'r 2 ran.

- Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth
- Pensiwn Ychwanegol y Wladwriaeth

Credyd Treth Plant

Lwfans ar gyfer pobl sy'n gyfrifol am blentyn yw hwn. Bydd p'un a ydych yn gymwys iddo a'r swm y gallech ei gael yn dibynnu ar nifer o bethau, fel incwm eich cartref a'r nifer o blant sydd gennych.

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol

Ceir 6 dosbarth o gyfraniadau Yswiriant Gwladol. Dim ond 3 sy'n cyfrif tuag at fudd-dal.

- Rydych chi a'ch cyflogwr yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 os ydych yn gweithio a'ch bod yn ennill mwy na ‘throthwy enillion sylfaenol cyflogai’.
- Rydych yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 os ydych yn hunangyflogedig.
- Gallwch ddewis talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 3 gwirfoddol er mwyn cynnal neu wella eich hawl i rai budd-daliadau a Phensiwn y Wladwriaeth.

Gall rhai merched priod a gwragedd gweddw dalu eu cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfradd is o hyd.

Trothwy enillion cyflogai

Dyma lefel yr enillion ble mae'n rhaid i chi ddechrau talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 os ydych yn gweithio i gyflogwr. Mae'n rhaid i chi dalu cyfraniadau ar swm eich enillion uwchlaw'r lefel hon. Gelwir hwn yn 'drothwy sylfaenol' hefyd.

Y Gymuned Ewropeaidd

Mae rheoliadau'r Gymuned Ewropeaidd yn berthnasol i Awstria, Gwlad Belg, Bwlgaria, Cyprus, Gweriniaeth Siec, Denmarc, Estonia, y Ffindir, Ffrainc, yr Almaen, Groeg, Hwngari, Iwerddon, yr Eidal, Latfia, Lithwania, Lwcsembwrg, Malta, Yr Iseldiroedd, Gwlad Pwyl, Portiwgal, Romania, Slofacia, Slofenia, Sbaen (gan gynnwys Ynysoedd Baleares a Dedwydd), Sweden a'r DU (gan gynnwys Gibraltar ond nid Ynys Manaw nag Ynysoedd y Sianel).

Mae rheolau gofal iechyd a nawdd cymdeithasol y Gymuned Ewropeaidd hefyd yn berthnasol i Wlad yr Iâ, Liechtenstein, Norwy a'r Swistir.

Prydain Fawr

Cymru, Lloegr a'r Alban.

Terfyn enillion is

Y terfyn enillion yw'r lefel y mae eich enillion yn dod yn berthnasol at ddibenion budd-daliadau. Mae'n swm is na throthwy enillion cyflogai lle mae'n rhaid i chi ddechrau talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Os yw eich enillion o leiaf yn cyfateb i'r terfyn enillion is, ond maent ar lefel trothwy enillion cyflogai neu'n is, ni fyddwch yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 ond cewch eich trin fel pe baech wedi'u talu at ddibenion budd-dal.

Oedran Pensiwn y Wladwriaeth

Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer dynion a aned ar neu cyn 5 Ebrill 1959 yw 65. Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer merched a aned ar neu cyn 5 Ebrill 1950 yw 60. Gweler tudalen 32 i gael manylion am y newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Blwyddyn dreth

Mae blwyddyn dreth yn dechrau ar 6 Ebrill un flwyddyn ac yn dod i ben ar 5 Ebrill y flwyddyn wedyn.

Os oes rhaid i chi dalu treth ar fudd-dal, bydd Cyllid a Thollau EM yn ei asesu at ddibenion treth ynghyd â rhannau eraill o'r incwm rydych yn talu treth arnynt.

Nid yw hyn yn golygu y didynnir treth o'r taliadau budd-daliadau cyn y byddwch yn eu cael, ond bydd rhaid i chi eu cynnwys ar eich ffurflen treth incwm.

Ni chaiff budd-dal di-dreth ei asesu fel incwm at ddibenion treth ac felly ni fydd yn gwneud gwahaniaeth i faint o dreth y byddwch yn ei dalu, waeth beth yw eich incwm.

Y Deyrnas Unedig (DU)

Ystyr y DU yw Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ond nid Ynysoedd y Sianel nac Ynys Manaw.

Terfyn enillion uchaf

Uchafswm swm yr enillion yw hyn y gellir cyfrifo budd-daliadau cyfrannol arnynt. Hon yw'r lefel hefyd lle y byddwch yn rhoi'r gorau i dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 ar brif gyfradd Dosbarth 1.

Os oes gennych enillion uwchlaw'r terfyn enillion uchaf, byddwch yn parhau i dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1, ond ar y gyfradd Dosbarth 1 ychwanegol, sy'n is na'r brif gyfradd.

Costau galwadau

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau daear BT ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

O Medi 2008 ni ddylai cost galwadau i rifau 0845 o linellau daear BT fod yn fwy na 4c y funud gyda thâl o 7c ar gyfer gwneud yr alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall neu ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Gall galwadau o ffonau symudol gostio hyd at 40c y funud, felly gofynnwch i'ch darparwr gwasanaeth am gost galwadau.

Ffonau Testun

Mae'r rhifau ffôn tesun a ddarparwn yn rhai ar gyfer pobl sy'n ei chael hi'n anodd siarad neu glywed yn glir.

Os nad oes gennych ffôn testun, efallai y bydd gan ambell lyfrgell neu ganolfan cyngor ar bopeth un.

Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

Gwybodaeth bwysig am y daflen hon

Canllaw cyffredinol yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi ceisio sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir o fis Hydref 2008.

Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio, neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft, o ganlyniad i newidiadau i'r gyfraith.

www.canolfanbydgwaith.gov.uk

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn ymroddedig i weithredu egwyddorion cyfle cyfartal yn ei rhaglenni a'i gwasanaethau.

Cynhyrchwyd gan y Ganolfan Byd Gwaith,
rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

ISBN 978-1-84763-015-5
DWP1005W | f1.0 (Hydref 2008)